Adroddiad ar

Playtots Brynna Playgroup LCDP

Church Street
Brynna
Pont-y-clun
Rhondda Cynon Taf
CF72 9QP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Playtots Brynna Playgroup LCDP

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Playtots Brynna Playgroup LCDP |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Rhian Symons |
| Person â chyfrifoldeb | Lynette Ece |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 23 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener (yn ystod y tymor yn unig) 9:15 i 3:45, gan gynnig y sesiynau canlynol: 9:15-12:45/13:00 – 3:45 a gofal dydd llawn 9:15 am- 3:45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 6 Chwefror 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 05/03/2024 |

Mae'r lleoliad hwn yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Datblygu Cymunedol Llanharan Cyf ac mae wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ers 2009. Mae'r lleoliad yn darparu gwasanaeth mewn neuadd eglwys ac mae'n rhaid rhoi popeth i gadw ar ddiwedd pob dydd.

Mae plant yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.

Ni nodwyd bod unrhyw blentyn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond nodir bod yr agweddau hyn yn feysydd i'w gwella a bod yn rhaid i'r Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â nhw.**

**Ceir gwybodaeth am bob achos o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwelliant, a gaiff ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.**

## Argymhellion

A1 Mireinio'r defnydd a wneir o drefniadau arsylwi ac asesu er mwyn llywio'r camau nesaf yn natblygiad y plant yn well

A2 Sicrhau bod profion tân yn cael eu cwblhau mewn modd amserol

A3 Sicrhau bod sesiynau goruchwylio ac arfarnu yn cael eu cynnal mewn modd amserol

A4 Ymdrin â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau hyderus ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau niferus sydd ar gael iddynt yn yr amgylchedd chwarae ac yn dilyn eu diddordebau. Mae bron bob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystumiau corfforol a chiwiau gweledol i ddangos i'r ymarferwyr eu bod am gael mwy o ddŵr pan maent yn chwarae y tu allan.

Mae bron bob un o'r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn barod i ddechrau eu diwrnod. Mae'r rhai sy'n dawel neu'n teimlo'n drist ar ôl cyrraedd yn cael eu cefnogi'n dda gan yr ymarferwyr ac yn ymuno'n gyflym yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol, sy'n eu helpu i deimlo'n gartrefol ac yn hyderus. Ar ôl cyrraedd, mae'r plant

yn golchi eu dwylo ac yn rhoi eu bocsys cinio yn y mannau storio dynodedig yn annibynnol cyn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymdrechion a'u cyflawniadau, sy'n eu helpu i deimlo'n hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol ac iach â'u ffrindiau a'r ymarferwyr. Maent yn ymgysylltu'n hyderus wrth archwilio'r amgylchedd dysgu. Er enghraifft, maent yn cyd-chwarae â'r ymarferwyr gan ddewis a dethol eitemau i'w rhoi yn y troli wrth chwarae yn yr ardal awyr agored.

Mae bron bob un o'r plant yn fywiog ac yn frwdfrydig ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n eu helpu i ddatblygu, dysgu a defnyddio eu dychymyg. Caiff y plant eu cymell i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, maent yn codi pom poms o'r llawr sawl gwaith ac yn eu hailosod mewn jar wrth chwarae â'r deunyddiau crefft, gan ddangos dyfalbarhad a phenderfyniad i gwblhau'r dasg.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu ystod eang o sgiliau wrth iddynt chwarae a dilyn arferion y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu sgiliau annibynnol, sy'n eu galluogi i gwblhau tasgau ar eu pen eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd i'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Amser byrbryd, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain o jygiau yn fedrus ac yn defnyddio gefeiliau bach a llwyau i roi darnau o ffrwythau ac iogwrt ar eu platiau.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu sgiliau cyfathrebu cadarn yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau a chwestiynau gan yr ymarferwyr ac yn ymateb yn frwdfrydig gan ddefnyddio ystod addas o eirfa. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau siarad am yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt a gallant ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud wrth ddysgu a chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio'n gywir beth sy'n digwydd i liw'r dŵr pan fyddant yn cymysgu dau hylif gwahanol â'i gilydd wrth greu eu cymysgedd eu hunain yn yr ardal awyr agored.

Mae llawer o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar straeon yn cael eu hadrodd iddynt. Maent yn deall sut i drin a thrafod llyfrau fel darllenwyr, gan droi'r tudalennau'n gywir ac edrych ar luniau o'r cymeriadau. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda, ac yn disgrifio ac yn creu modelau o'r cymeriadau hyn allan o glai a deunyddiau eraill, er enghraifft i wneud gofodwyr o'r stori ‘Aliens love underpants’. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos dealltwriaeth briodol o ddiben ysgrifennu ac yn dangos sgiliau ysgrifennu cynnar cadarn wrth iddynt fanteisio ar yr ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn dangos aeddfedrwydd a meistrolaeth dda dros gyfarpar ysgrifennu a pheintio amrywiol wrth chwarae, er enghraifft wrth ddefnyddio pen ysgrifennu i lunio rhestr siopa mewn ymateb i drafodaethau ag ymarferydd yn y gegin chwarae rôl ac wrth beintio llun o gennin pedr mewn pot.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn manteisio'n frwdfrydig ar gyfleoedd i ganu caneuon a rhigymau Cymraeg cyfarwydd ac ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn briodol, er enghraifft wrth ganu cân am ddiwrnodau'r wythnos a chyfrif nifer y diwrnodau. Mae rhai ohonynt yn dechrau ymateb yn addas i gwestiynau dyddiol, fel rhai am eu teimladau a'r tywydd.

Mae'r ystod eang o gyfleoedd a dysgu pwrpasol sydd ar gael yn y lleoliad yn cefnogi sgiliau rhifedd y plant yn dda. Mae bron bob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig wrth ganu ystod o ganeuon a rhigymau am rifau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol yn dda wrth ddysgu ac yn dangos dealltwriaeth dda o amrywiaeth o gysyniadau gwahanol, gan gynnwys rhifau a siapiau. Maent yn dangos hyder wrth gyfrif gwrthrychau i ddeg ac yn dechrau deall patrymau a threfn, er enghraifft, wrth geisio gweithio allan diwrnod a dyddiad y diwrnod canlynol. Mae sgiliau datrys problemau a meddwl y plant yn datblygu'n dda, er enghraifft, wrth iddynt gydweithio i gyfuno blociau o siapiau gwahanol er mwyn adeiladu tŵr, gan wneud addasiadau fel y bo angen.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu sgiliau corfforol cadarn wrth ddysgu a chwarae. Maent yn defnyddio eu sgiliau echddygol manwl yn effeithiol wrth arllwys dŵr o'u tebot tsieina i weini te ac wrth ddefnyddio cyllyll i dorri tatws yn y gegin chwarae rôl. Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau echddygol bras yn dda hefyd, gan ddefnyddio cribiniau a hofiau i lyfnhau'r pridd a'r rhisgl. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu sgiliau digidol yn briodol drwy ddefnyddio ystod gyfyngedig o gyfarpar. Er enghraifft, maent yn defnyddio camerâu yn hyderus i dynnu lluniau ei gilydd wrth iddynt weithio.

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu sgiliau creadigol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a phrofiadau creadigol sydd ar gael iddynt. Maent yn mwynhau canu, symud a dawnsio i rigymau a chaneuon cyfarwydd, ac maent yn mwynhau gwylio plant eraill yn perfformio, er enghraifft, wrth wylio plentyn arall yn arddangos ei sgiliau dawnsio tap yn ei esgidiau tap. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau peintio a chreu modelau gan ddefnyddio clai a deunyddiau eraill yn annibynnol. Maent yn ysbrydoli ei gilydd ac yn defnyddio eu sgiliau newydd yn dda wrth chwarae, er enghraifft, wrth greu seiniau a rhythmau gwahanol gan ddefnyddio drymiau Affricanaidd yn dilyn ymweliad gan gerddor.

**Gofal a datblygiad:  Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a sut i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae systemau addas ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn cwblhau'r cofnodion hyn yn llawn nac yn sicrhau bod arferion yn cyd-fynd â pholisi meddyginiaeth y lleoliad. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gyffredinol, maent yn ymdrin ag unrhyw faterion diogelu mewn ffordd bwyllog. Maent yn hyderus o ran y camau i'w cymryd pe bai ganddynt bryderon ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r gweithdrefnau i'w dilyn, ond nid ydynt bob amser yn gwneud hynny yn ymarferol.

Felly, ar y cyfan, nid yw trefniadau diogelu'r lleoliad yn ddigon cadarn gan nad ydynt bob amser yn dilyn gweithdrefnau gwrth gofnodi digwyddiadau ac anafiadau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. O ganlyniad, nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac maent yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod o fyrbrydau iach a chytbwys ac mae dŵr ar gael i'r plant bob amser. Mae systemau addas ar waith i reoli alergeddau ac anoddefiadau. Mae'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da yn unol â chanllawiau rheoli heintiau, er enghraifft, wrth lanhau'r byrddau cyn i'r plant eistedd i lawr i fwyta a golchi eu dwylo wrth drin a thrafod bwyd. Maent yn annog y plant i ddatblygu arferion hylendid da, fel golchi eu dwylo cyn bwyta.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn fodelau rôl da, gan siarad â'i gilydd a'r plant mewn ffordd barchus. Maent yn garedig ac yn amyneddgar ac yn rhoi sicrwydd a chysur i'r plant pan fo angen. Maent yn deall y polisi ymddygiad yn dda ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i gyfarwyddo'r plant i ymddwyn yn unol â disgwyliadau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cynnal arsylwadau defnyddiol sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o anghenion unigol pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol wrth gynllunio profiadau i gefnogi gwaith dysgu'r plant. Maent yn rhoi amser i'r plant ymestyn eu syniadau a dilyn eu diddordebau eu hunain wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn gwneud yn siŵr y gall y plant fynd yn ôl at weithgareddau y maent yn eu hoffi. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Maent yn gofyn am gyngor ac arweiniad buddiol gan weithwyr proffesiynol ac yn gosod ac yn adolygu targedau unigol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae diddorol a buddiol sy'n diwallu anghenion y plant yn dda. Maent wedi datblygu dealltwriaeth gadarn o'r Cwricwlwm i Gymru, sydd i'w gweld yn yr amgylchedd dysgu cyfoethog a'u parodrwydd i adael i'r plant ddysgu drwy ddarganfod a chwarae. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn ystyried camau datblygiad y plant, eu diddordebau a'u barn wrth gynllunio'r profiadau sydd ar gael iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored yn dda i annog y plant i archwilio'r ardaloedd dysgu gwahanol a darganfod pethau drostynt eu hunain. Maent yn sicrhau bod llawer o'r profiadau hyn ar gael bob amser i'r plant er mwyn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i atgyfnerthu eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau dysgu defnyddiol yn rheolaidd sy'n cefnogi eu datblygiad ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae gwybodaeth yr ymarferwyr am y cwricwlwm newydd hefyd yn sicrhau eu bod yn cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant drwy'r ystod eang o brofiadau a gynigir. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau er mwyn archwilio, datrys problemau a bod yn greadigol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant yn y lleoliad.

Mae'r gwelliannau a wnaed i'r ardal ddysgu awyr agored yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwneud defnydd ardderchog o'r amgylchedd i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu buddiol i'r plant. O ganlyniad, gall y plant ddewis pryd a ble yr hoffent chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal leol i gefnogi dealltwriaeth y plant o'r byd naturiol a'r gymuned, er enghraifft, wrth fynd i'r siop leol i brynu cynhwysion i bobi eu cacen ac wrth ofalu am eu rhandir lle maent yn dysgu sut i dyfu llysiau. Mae'r lleoliad hefyd yn annog ymwelwyr i ddod i'r lleoliad yn rheolaidd er mwyn ychwanegu at y dysgu, gan gynnwys cerddor sy'n chwarae drymiau Affricanaidd, storïwr ac athro ioga, sy'n rhoi profiadau ymarferol gwerthfawr i'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau llythrennedd, corfforol a chreadigol ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'u cymuned a'r byd ehangach.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i'r plant glywed a defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft, drwy ganu caneuon cyfarwydd, gwrando ar storïau ac ateb cwestiynau cyfarwydd. Maent hefyd yn annog y plant i ddathlu eu treftadaeth drwy ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru, fel Diwrnod Santes Dwynwen, yn ogystal â dysgu am hanes glofaol yr ardal leol. Mae'r ymarferwyr hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am leoedd a diwylliannau gwahanol. Er enghraifft, i baratoi ar gyfer eu sesiwn drymiau Affricanaidd, dysgodd y plant am fywyd plentyn yn Affrica drwy stori ac ystod o brofiadau dysgu cysylltiedig.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda drwy drefniadau gweithiwr allweddol y lleoliad. Maent yn rhoi anogaeth gadarnhaol i'r plant gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae, gan wybod pryd i ymyrryd er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau dysgu a meddwl y plant. Mae hyn yn cefnogi sgiliau dysgu annibynnol y plant yn dda ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac archwilio. Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn modelu chwarae yn dda ac yn cynnwys y plant mewn gweithgareddau yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio cwestiynau ac ysgogiadau effeithiol i ymestyn ymgysylltiad, datblygiad iaith a sgiliau meddwl y plant, er enghraifft, drwy eu hannog i ddisgrifio arogl eu cymysgeddau ac wrth drafod blodau, pryfaid a thrychfilod bach yn y rhandir. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n dathlu gwahaniaethau pawb. Er enghraifft, mae dathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o wahaniaeth. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ac yn cofnodi datblygiad y plant yn briodol ac yn rhannu'r cofnodion hyn â'r rhieni a'r gofalwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i lywio'r camau nesaf yn natblygiad y plant.

**Yr Amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd chwarae a dysgu diogel ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau ei fod yn lân ac mewn cyflwr da ac maent yn cadw cofnodion effeithiol o'r adeg pan fo ymwelwyr, plant ac ymarferwyr yn cyrraedd ac yn gadael yr adeilad. Yn gyffredinol, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn rhoi mesurau priodol ar waith i gynnal diogelwch yr amgylchedd, gan gynnwys cynnal ymarferion tân rheolaidd. O ganlynaid, mae'r staff a'r plant yn gwybod beth i'w wneud pe bai tân. Fodd bynnag, ni chaiff profion tân eu cynnal yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn cynnal archwiliadau dyddiol o feysydd allweddol er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystod o asesiadau risg defnyddiol i'r ymarferwyr eu dilyn, sy'n cynnwys arferion dyddiol allweddol ac yn cyfrannu at ddiogelwch cyffredinol y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gael i'r plant, yn ogystal â dodrefn o ansawdd da ac o faint priodol i ddiwallu eu hanghenion. Maent wedi datblygu'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored i wneud y mwyaf o'r lle sydd ar gael a gwella'r profiadau a gynigir i'r plant. Er enghraifft, mewn ystafell fach wrth ymyl y brif ardal chwarae mae cwtsh tywyll, goleuadau isel, tortshis a pheli sy'n goleuo, fel y gall y plant brofi rhyfeddod a swyn chwarae synhwyraidd.

Mae cynllun yr amgylchedd chwarae yn cefnogi rhyddid a gallu'r plant i wneud dewisiadau wrth chwarae. Mae'r ymarferwyr yn rhoi lle i'r plant ddianc oddi wrth brysurdeb y lleoliad. Mae cyfleoedd i edrych ar lyfrau a'u rhannu mewn ardal dawel gyfforddus ynghyd â chyfleoedd i orffwys/cysgu. Mae arddangosfeydd yn addurno'r waliau a'r mannau chwarae, sy'n dangos ffotograffau o brofiadau'r plant ac yn dathlu gwaith celf unigol y plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu ystod helaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da. Mae llawer o eitemau go iawn, eitemau naturiol, eitemau wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol ac eitemau wedi'u hailgylchu yn cyfoethogi'r amgylchedd dan do ac awyr agored. Er enghraifft, caiff lafant a phetalau rhosod ffres eu hychwanegu at y twba dŵr, gan ychwanegu at brofiadau chwarae'r plant. Mae ystod eang o eitemau go iawn ar gael i'r plant, fel llestri tsieina a llysiau ffres yn y gornel gartref, sy'n adlewyrchu profiadau go iawn ac yn ysgogi chwilfrydedd y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu eu dewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol.

Mae'r amgylcheddau awyr agored yn cynnig ystod o gyfleoedd a phrofiadau chwarae cyfoethog i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol a'u chwarae dychmygus, ac ymgysylltu â'r byd naturiol pan fyddant yn ymweld â rhandir y lleoliad. Gall y plant fynd allan o'r brif ystafell chwarae i ardal awyr agored fach. Mae ystod addas o gyfarpar mawr ar gael i ddatblygu sgiliau corfforol y plant, fel beiciau, twneli a thrawstiau dringo. Mae ffens isel a godwyd gan y cylch chwarae, ynghyd â goruchwyliaeth agos, yn cynnig diogelwch i'r plant pan fyddant yn chwarae.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae'r arweinwyr yn rhoi gofal a llesiant y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Maent yn falch o'u lleoliad ac yn cydnabod pwysigrwydd eu gwaith wrth gefnogi plant a theuluoedd yn eu cymuned. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu'n dda â'r ymarferwyr, y rhieni a'r gymuned ehangach. Maent wedi creu diwylliant cyfeillgar a gofalgar yn y lleoliad sy'n golygu bod y plant yn mwynhau mynd yno. Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r ymarferwyr yn eithriadol o dda, gan sicrhau ethos tîm cryf lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael gofal.

Un nodwedd amlwg o waith y lleoliad, a'r elusen y mae'n rhan ohoni, yw'r ffordd y mae'n helpu'r ymarferwyr i ddatblygu a dod yn rhan bwysig o'r tîm. Er enghraifft, mae rhai ymarferwyr wedi cael cymorth gan Elusen Prosiect Datblygu Cymunedol Llanharan Cyf i ennill cymwysterau addas i weithio yn y lleoliad ar ôl gweithio yno fel gwirfoddolwyr i ddechrau. Mae'r ffocws cadarn hwn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus wedi sicrhau bod y lleoliad wedi creu amgylchedd dysgu pwrpasol sy'n rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod y plant yn arwain eu dysgu a'u chwarae eu hunain. Mae'r arweinwyr yn defnyddio prosesau recriwtio diogel a phriodol. Maent yn sicrhau

bod gan bob un o'r ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n cynnwys gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol buddiol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol.

Mae'r arweinwyr yn ystyried effaith tlodi ar lesiant a datblygiad y plant yn dda, er enghraifft, drwy gefnogi teuluoedd bregus a chyflwyno banc iwnifform. Yn gyffredinol, maent wedi rhoi ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi gofal a datblygiad y plant a chefnogi diwylliant diogelu'r lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn eu rhoi ar waith yn ddigon effeithiol.

Mae Adolygiad y lleoliad o Ansawdd y Gofal yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am waith y lleoliad. Mae'r arweinwyr wedi datblygu prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant defnyddiol i gefnogi gwaith y lleoliad. Mae'r rhain yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys barn rhieni/gofalwyr, adroddiadau gan bartneriaid fel yr awdurdod lleol a gwerthusiadau'r ymarferwyr eu hunain o'r ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi'r arweinwyr i nodi meysydd pwysig i'w gwella a chreu cynlluniau gweithredu pwrpasol i gefnogi hyn. O ganlyniad, mae'r arweinwyr wedi llwyddo i wella agweddau allweddol ar y ddarpariaeth dros amser, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant a datblygiad y plant. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi gwella'r amgylchedd dysgu awyr agored, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu a chwarae'r plant yn effeithiol ac yn cefnogi eu hannibyniaeth yn dda. Er bod yr arweinwyr yn gwerthuso llwyddiant eu cynlluniau gwella'n addas, nid ydynt bob amser yn cysylltu hyn yn ddigon da â'r effaith ar ddysgu a llesiant y plant.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau gwerthfawr i gefnogi eu gwaith a gwella'r ddarpariaeth i blant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol i'r rhieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plentyn drwy ap ar-lein a chyswllt wyneb yn wyneb rheolaidd. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyswllt hwn ac yn teimlo y gallant siarad yn agored â'r arweinwyr a'r ymarferwyr agored am lesiant a datblygiad eu plant ar unrhyw adeg. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda phenaethiaid ac athrawon yr ysgol leol i gefnogi'r cam pontio. Mae athrawon yn ymweld â'r lleoliad bob tymor i gael gwybodaeth am y plant a fydd yn symud i'w hysgolion y tymor nesaf. Mae ymweliadau rheolaidd gan asiantaethau eraill fel yr ymwelydd iechyd a chynghorwyr ADY yr awdurdod lleol hefyd yn cefnogi gwaith yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn dda, yn ogystal â chefnogi llesiant a datblygiad y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | The responsible individual must ensure safeguarding matters are managed appropriately and procedures for recording existing injury records are robust. | Newydd |
| 30 | The responsible individual must ensure medication records are completed fully, accurately and procedures followed are in line with the settings medication policy. | Newydd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 10 Mai 2024